RHODIWCH YN GYWIR

Nodyn i'r siaradwr:
Dangoswch sut i wneud defnydd ymarferol o Salm 26. Eglurwch beth fydd yn ein helpu i rodio'n gywir a pha beryglon i'w hosgoi. Nid yw'r syniad o rodio'n gywir bob amser yn hawdd ei ddeall gan bobl yn gyffredinol, felly ceisiwch ei egluro mewn geiriau amryw fel uniondeb, cyfiawnder, cywirdeb, ffyddlondeb

BETH MAE'N EI OLYGU I RODIO'N GYWIR? (4 mun.)

Mae "rhodio'n gywir" yn golygu bod yn foesol lân, ac yn ffyddlon i Jehofa â'n holl galon (*w09*-E 4/15 3; *it*-1-E 1209-1212)

- Mae'n cynnwys ffordd o fyw sy'n adlewyrchu ymroddiad cadarn i gyfiawnder
  - Mae angen calon ag ysgogiad cywir ynghyd â gweithredoedd cyfiawn
  - Mae ynghlwm yn y gorchymyn inni garu Jehofa â'n holl galon, enaid, a meddwl (Mth 22:37)
- Mae rhodio yn gywir yn cynnwys chwilio'n ddi-baid i ddod i adnabod ewyllys Jehofa a byw ein bywydau yn unol â'r wybodaeth honno [Darllenwch Salm 119:1-3]
  - Mae hyn yn berthnasol i bob rhan o'n bywydau
  - Er ei bod yn her i gerdded yn y gwirionedd mewn byd pechadurus, mae miliynau o Dystion Jehofa yn ei wneud yn llwyddiannus

BETH GALL EIN HELPU I DDAL ATI I RODIO YN GYWIR? (15 mun.)

Mae Salm 26 yn dangos beth gall ein helpu i rodio yn gywir (*w04*-E 12/1 13-18)

Roedd y Brenin Dafydd yn ddyn a rodiodd yn gywir [Darllenwch Salm 26:1]

- Gofynnodd ef i Jehofa, 'Chwilia fi a phrofa fi, rho brawf ar fy nghalon a'm meddwl' [Darllenwch Salm 26:2]
  - Gofynnwch yn gyson i Jehofa archwilio'ch calon
    - Croesewch y fath archwiliad, a gwnewch y newidiadau sydd eu hangen
- Rhodiodd Dafydd yng ngwirionedd Duw [Darllenwch Salm 26:3]
  - Cadwodd Dafydd weithredoedd ffyddlon a chariadus Jehofa o flaen ei lygaid
  - Er mwyn rhodio yn y gwirionedd rhaid dod i adnabod Jehofa yn dda
- Roedd Dafydd yn "casáu cwmni'r rhai drwg" [Darllenwch Salm 26:4, 5]
  - Felly dylen ni osgoi cyfeillachu gyda'r celwyddog
    - Mae rhai dynion yn cuddio pwy ydyn nhw i gogio cyfeillgarwch gyda ni
      - Mae gwrthgilwyr yn ein camarwain er mwyn ein denu oddi wrth Jehofa
  - Mae'n hanfodol inni osgoi cwmni drwg! (1Co 15:33)
    - Mae'n cynnwys teledu a chyfryngau eraill
- Datganodd Dafydd ei ymroddiad i Jehofa [Darllenwch Salm 26:6]
  - Amgylchwn 'allor yr ARGLWYDD' drwy feithrin ffydd yn aberth Iesu
    - Mae'r fath ymroddiad i Jehofa yn dderbyniol iddo
- Cyfeiriodd Dafydd at waith sy'n ein helpu [Darllenwch Salm 26:7]
  - Yn yr un modd, a ydych yn teimlo'r angen i rannu'ch gwybodaeth am Jehofa ag eraill?
  - Mae prysurdeb yn y weinidogaeth yn ein hatal rhag cydymffurfio â'r byd (*w98*-E 6/1 6-7)

Mae ein cyfarfodydd, cynulliadau, a chynadleddau Cristnogol yn helpu i gryfhau ein huniondeb [Darllenwch Salm 26:8]

- Pan yna, gwnewch ymdrech ddyfal i gymryd gwybodaeth i mewn
  - Datblygwch gariad at farnedigaethau Jehofa (Salm 119:167)
  - Anogwch eraill, a derbyniwch anogaeth gan eraill yn ystod achlysuron o'r fath (Heb 10:24, 25)

RHODIWCH YN GYWIR AC OSGOWCH DRYCHINEB (8 mun.)

Efelychwn apêl Dafydd am drugaredd Jehofa, rhag iddo farw fel un wedi byw ei fywyd ymhlith pechaduriaid [Darllenwch Salm 26:9, 10]

- Yn ôl cylchgronau, ffilmiau, a gwefannau mae ymddygiad digywilydd yn beth arferol a derbyniol
  - Drwy'r rhyngrwyd fe allwn ni ddechrau cymdeithasu â rhai drwg
  - Gall gwylio pornograffi arwain at ymddygiad digywilydd neu at *por·nei'a* (*w10*-E 4/15 21-22; *w04*-E 12/1 17; *g03*-E 7/22 6-10)

Rhaid i bawb weithio i wrthsefyll dylanwadau anfoesol, y rhai ifanc yn enwedig

- Mae llawer yn teimlo'r pwysau i ddechrau canlyn a ffurfio perthynas ramantaidd, er eu bod nhw'n rhy ifanc i briodi
- Mae'r rhai ifanc sy'n rhodio'n gywir yn osgoi'r poen ac aflendid sy'n dod drwy ymddygiad anfoesol

Mae rhaid i oedolion hefyd warchod eu ffydd

- Y mae'r rhai sy'n rhodio yn gywir yn cadw priodas gref a heddychol

Mae ymarferion busnes gonest a phenderfyniadau sy'n ystyriol o ewyllys Jehofa yn dystiolaeth o rodio yn gywir

Bydd myfyrio ar fantais cwrs ffyddlon yn ein helpu i feithrin casineb at bob dylanwad llygredig (Am 5:15)

RHOWCH GLOD I DDUW GAN DDAL I RODIO YN GYWIR (3 mun.)

Calonogol yw gweld miliynau o Gristnogion yn rhodio yn gywir heddiw

Dewch inni gadw ffordd o fyw sy'n dangos ein parch a gwerthfawrogiad at benarglwyddiaeth Duw

Peidiwch byth â gadael i Satan ddwyn perswâd arnoch chi i fentro'r hyn a all beryglu eich perthynas werthfawr gyda Jehofa

Gadewch i gwrs eich bywyd brofi eich bod yn gytûn â mynegiadau Salm 26:11, 12 [Darllenwch]

(Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun)

© 2014 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania